

Holiadur: Tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion

Croeso

Rydym yn gweithio ar brosiect sy'n ymchwilio i'r modd y mae dysgwyr Cymraeg yn ynganu'r iaith. Fel rhan o'r prosiect hwn, rydym yn ymddiddori yn eich barn fel tiwtoriaid ar ynganiad dysgwyr a'r trafferthion sy'n codi.

Byddem yn ddiolchgar iawn pe buasech yn fodlon ateb y cwestiynau canlynol ynghylch:1. eich cefndir;2. yr anawsterau sy'n codi ymhlith dysgwyr;3. rhesymau posibl dros yr anawsterau hyn;4. eich barn ynghylch pwysigrwydd ynganiad.

Dylai'r holiadur gymryd 10-15 munud i'w gwblhau.

Bydd y data i gyd yn anhysbys, felly ni ddefnyddir eich enw neu fanylion cyswllt wrth gyflwyno'r canlyniadau. Gofynnir ichi roi'ch enw a'ch cyfeiriad ebost rhag ofn bydd gan yr ymchwilyr unrhyw gwestiynau ynglŷn â'ch atebion.

Diogelir y wybodaeth gan gyfrinair a'r ymchwilyr yn unig a fydd yn ei wybod.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r holiadur, mae croeso i chi ebostio naill ai Iwan Wyn Rees (ReesIW2@cf.ac.uk) neu Jonathan Morris (MorrisJ17@cf.ac.uk).

Diolch yn fawr iawn am eich cymorth gyda'n gwaith.

Drwy lenwi'r holiadur hwn, yr wyf yn cydsynio i gymryd rhan yn y prosiect ymchwil hwn. Yr wyf yn deall bod cymryd rhan yn wirfoddol ac y gallaf dynnu yn ôl ar unrhyw adeg. Yr wyf yn deall fy mod yn rhydd i ofyn unrhyw gwestiynau am y prosiect ar unrhyw adeg. Yr wyf yn deall y caiff unrhyw wybodaeth a roddir gennyf ei dal yn unol â Deddf Diogelu Data 1998. Yr wyf yn deall y bydd yr ymchwilyr yn gwneud pob ymdrech i sicrhau cyfrinachedd wrth ymdrin â'm sylwadau, oni nodir yn wahanol, ond y gallaf gysylltu â'r tîm ymchwil i ofyn iddynt hepgor o'r adroddiadau terfynol unrhyw wybodaeth a roddwyd gennyf.

ADRAN A: EICH CEFNDIR

Yn yr adran hon, gofynnir ichi gwestiynau am eich cefndir eich hun.

1. Enw

2. Ebst

3. Dyddiad geni

Mae'n rhaid i'r dyddiadau fod ar ffurf fformat 'DD/MM/BBBB', er enghraifft 27/03/1980.

Gwnewch yn siŵr bod y dyddiad rhwng 01/01/1900 a 31/12/2014.



(dd/mm/bbbb)

4. Rhyw

Benyw

Gwryw

5. Ble y cawsoch chi eich magu'n benodol? (Rhowch enw'r dref a'r wlad os gwelwch yn

dda)

6. Ble ydych chi'n byw nawr?

6.a. Ers sawl blwyddyn rydych chi'n byw yma?

7. Pa ieithoedd a siaradwyd ar eich aelwyd pan oeddech yn cael eich magu? (Dewiswch un yn unig os gwelwch yn dda).

- Cymraeg yn unig.
- Cymraeg yn bennaf gydag ychydig o Saesneg.
- Cymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.
- Saesneg yn unig.
- Saesneg yn bennaf gydag ychydig o Gymraeg.
- Arall

7.a. nodwch os gwelwch yn dda

Tudalen 2

Gan mai iaith leiafrifol yw'r Gymraeg, mae siaradwyr yn amrywio yn ôl sut y gwnaethant gaffael yr iaith, sut y maent yn teimlo ynghylch eu gallu, yn ogystal â'r defnydd a wnânt o'r iaith. Bwriad y cwestiynau canlynol yw casglu gwybodaeth ynghylch eich profiad o'r Gymraeg. Defnyddir y cwestiynau er mwyn gwahaniaethu rhwng tiwtoriaid o gefndiroedd gwahanol.

8. A wnewch chi roi rhagor o wybodaeth am eich cefndir ieithyddol gan nodi eich iaith gyntaf, eich ail iaith a chan restru unrhyw ieithoedd eraill rydych yn eu siarad?

	Ticiwch un blwch ar gyfer pob iaith.			Os ydych wedi nodi iaith arall/ieithoedd eraill, rhestrwch yr iaith/ieithoedd hynny yma.
	Iaith gyntaf	Ail iaith	3edd/4edd/5ed iaith	
Cymraeg	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="text"/>
Saesneg	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="text"/>
Arall/Eraill	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="text"/>

Tudalen 3

9. Pa gymwysterau sydd gennych yn y Gymraeg? (Nodwch bob un sydd gennych).

- Mae gennyf gymhwyster TGAU mewn Cymraeg Iaith Gyntaf.
- Mae gennyf gymhwyster TGAU mewn Cymraeg Ail Iaith.
- Mae gennyf gymhwyster Safon Uwch (Lefel A) mewn Cymraeg Iaith Gyntaf.
- Mae gennyf gymhwyster Safon Uwch (Lefel A) mewn Cymraeg Ail Iaith.
- Mae gennyf radd yn y Gymraeg.
- Mae gennyf radd ôl-raddedig yn y Gymraeg.
- Mae gennyf gymhwyster Cymraeg i Oedolion: Mynediad
- Mae gennyf gymhwyster Cymraeg i Oedolion: Sylfaen
- Mae gennyf gymhwyster Cymraeg i Oedolion: Canolradd
- Mae gennyf gymhwyster Cymraeg i Oedolion: Uwch
- Mae gennyf gymhwyster Cymraeg i Oedolion: Hyfedredd
- Nid oes gennyf unrhyw gymhwyster yn y Gymraeg
- Arall

9.a. nodwch os gwelwch yn dda

10. Sut rydych chi wedi caffael y Gymraeg? (Nodwch bob un sy'n berthnasol).

- Gan riant neu rieni
- Mynychais ysgol Gymraeg / ysgol ddwyieithog lle cefais fy nysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mynychais ysgol Saesneg ei hiaith / ysgol ddwyieithog, gan astudio Cymraeg fel ail iaith.

- Dysgais y Gymraeg yn annibynnol fel oedolyn.
- Dilynais y llwybr 'Cymraeg i Oedolion'.
- Arall

10.a. nodwch os gwelwch yn dda

11. Os ydych chi wedi caffael y Gymraeg fel ail iaith neu iaith arall, ers pryd rydych yn dysgu'r Gymraeg (h.y. ers sawl blwyddyn)?

Tudalen 4

12. Beth yw eich barn ynghylch eich galluoedd yn y Gymraeg, hyd yn oed os ydych chi wedi caffael y Gymraeg fel iaith gyntaf? Ar gyfer pob un o'r sgiliau sy'n ymddangos isod, dywedwch pa un o'r pum disgrifiad sy'n eich disgrifio orau. (Nodwch un ateb ar gyfer pob sgil).

	Rwyf yn gallu darllen testunau syml sy'n cynnwys geiriau 'pob dydd'.	Rwyf yn gallu darllen erthyglau am broblemau cyfoes a llenyddiaeth gyfoes.	Rwyf yn gallu darllen erthyglau hir sy'n cynnwys iaith dechnegol.	Rwyf yn gallu darllen pob math o Gymraeg.
Darllen (deall yr iaith ysgrifenedig)	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

13. [missing question text]

	Rwyf yn gallu ysgrifennu brawddegau syml ar bynciau 'pob dydd'.	Rwyf yn gallu ysgrifennu adroddiad a mynegi fy marn.	Rwyf yn gallu ysgrifennu testunau hir wedi eu strwythuro ar nifer o bynciau.	Rwyf yn gallu ysgrifennu testunau hir cymhleth a chrynodebau, gan ddefnyddio cyweiriau gwahanol.
Ysgrifennu	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

14. [missing question text]

	Rwyf yn gallu deall y rhan fwyaf o sgysiau 'pob dydd' a'r rhan fwyaf o gynnwys rhaglenni radio / teledu.	Rwyf yn deall sgysiau a rhaglenni radio / teledu os yw'r pwnc yn gyfarwydd imi.	Rwyf yn gallu gwylio'r rhan fwyaf o raglenni radio / teledu ac yn gallu dilyn sgysiau hir a chymhleth fel arfer.	Rwyf yn deall pob math o Gymraeg heb drafferth.
Deall yr iaith lafar	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

15. [missing question text]

	Rwyf yn gallu siarad gyda siaradwyr Cymraeg gan fynegi fy marn.	Rwyf yn gallu siarad gyda siaradwyr Cymraeg am faterion cymhleth.	Rwyf yn gallu siarad gyda siaradwyr Cymraeg heb drafferth, gan fynegi fy marn a chyfrannu at sgwrs cymhleth.	Rwyf yn gallu siarad heb drafferth gyda siaradwyr Cymraeg ynghylch pynciau amrywiol, ac rwyf hefyd yn gallu defnyddio gwahanol gyweiriau llafar.
Siarad	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

Tudalen 5

16. Gyda phwy rydych chi'n defnyddio'r Gymraeg? (Nodwch bob un sy'n berthnasol)

- Fy mhartner
- Fy mhlant
- Aelodau eraill o'r teulu
- Ffrindiau agos
- Cyd-weithwyr
- Cymdogion
- Gydag aelodau o gymdeithas neu glwb
- Arall

16.a. nodwch os gwelwch yn dda

17. Os ydych chi wedi caffael y Gymraeg fel ail iaith neu iaith arall, pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich acen Gymraeg orau yn eich barn chi?

- Mae fy iaith gyntaf yn dylanwadu ar fy acen Gymraeg yn gryf
- Mae fy iaith gyntaf yn dylanwadu ar fy Gymraeg yn gryf weithiau
- Mae gennyf acen Gymraeg ar y cyfan, ond rwyf yn clywed dylanwad iaith arall arni weithiau
- Rwyf yn swnio fel dysgwr profiadol yn y Gymraeg
- Rwyf yn swnio fel siaradwr iaith gyntaf

Tudalen 6

Mae'r cwestiynau nesaf yn ymwneud â'ch swydd fel tiwtor Cymraeg i Oedolion.

18. Ers sawl blwyddyn rydych yn diwtor Cymraeg i Oedolion?

19. I ba ganolfan rydych chi'n gweithio? (Nodwch y ganolfan berthnasol hyd yn oed os ydych chi'n gweithio i ddarparwr lleol).

- Caerdydd a Bro Morgannwg
- Canolbarth Cymru
- Gogledd Cymru
- De-Orllewin Cymru
- Gwent
- Morgannwg

19.a. Os ydych chi'n gweithio i bartner cymunedol un o'r canolfannau uchod, i ba darparwr rydych chi'n gweithio?

20. A ydych chi'n gweithio i'r ganolfan yn llawn amser neu'n rhan amser?

- Llawn amser
- Rhan amser

21. A oes gennych un neu rai o'r canlynol? (Nodwch bob un sy'n berthnasol).

- Cymhwyster Cenedlaethol Tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion
- Cymhwyster TAR (PGCE).
- Cymhwyster dysgu neu hyfforddi arall.

21.a. Os ydych wedi nodi Cymhwyster TAR neu gymhwyster dysgu/hyfforddi arall, nodwch y sector a'r pwnc.

22. Cyrsiâu ar ba lefelau yr ydych chi wedi eu dysgu yn y gorffennol? (Nodwch bob un sy'n berthnasol)

- Blasu
- Mynediad
- Sylfaen
- Canolradd
- Uwch
- Hyfedredd

23. Cyrsiâu ar ba lefelau yr ydych chi'n eu dysgu ar hyn o bryd? (Nodwch bob un sy'n berthnasol)

- Blasu
- Mynediad
- Sylfaen
- Canolradd
- Uwch

ADRAN B:YNGANU YMHLITH DYSGWYR

Yn yr adran hon gofynnir ichi feddwl am yr anawsterau ynganu sy'n codi ymhlith eich dysgwyr. Yn gyntaf, hoffem ddarganfod beth sy'n gwneud ynganu yn heriol i ddysgwyr.

Gofynnir ichi nodi ar raddfa o 1 i 5 i ba raddau rydych yn cytuno â'r gosodiadau isod. Rhowch sgôr o 1 os ydych yn "ANGHYTUNO'N GRYF", a sgôr o 5 os ydych yn "CYTUNO'N GRYF"

Anghytuno'n gryf = 1 Anghytuno = 2 Heb fod yn ochri = 3 Cytuno = 4 Cytuno'n gryf = 5

24. I ba raddau y cytunwch chi â'r gosodiadau isod?

	1	2	3	4	5
Mae ynganu rhai seiniau yn heriol i ddysgwyr.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mae rhythmau a goslef (intonation) Cymraeg llafar yn heriol i ddysgwyr.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mae acen y Gymraeg yn heriol i ddysgwyr.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mae defnyddio nodweddion tafodieithol eu hardaloedd yn heriol i ddysgwyr.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mae siarad heb oedi yn heriol i ddysgwyr.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

Hoffem wybod hefyd a yw dysgwyr o bobman yn gweld ynganu yn y Gymraeg yn heriol.

25. I ba raddau y cytunwch chi â'r gosodiadau isod?

	1	2	3	4	5
Ar y cyfan, mae ynganu'n heriol i ddysgwyr o Gymru.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Ar y cyfan, mae ynganu'n heriol i ddysgwyr o wledydd eraill Prydain.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Ar y cyfan, mae ynganu'n heriol i ddysgwyr o dramor.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

Gan fod posibilrwydd fod sgiliau ynganu dysgwyr yn gwella wrth i lefelau eu cyrsiau gynyddu, hoffem gael eich barn ar yr agwedd hon.

26. I ba raddau y cytunwch chi â'r gosodiadau isod?

	1	2	3	4	5
Mae unrhyw anawsterau gydag ynganu'n diflannu cyn i'r dysgwyr symud i'r cwrs sylfaen.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mae anawsterau gydag ynganu'n diflannu rhwng lefel sylfaen a chanolradd.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mae anawsterau gydag ynganu'n diflannu cyn i ddysgwyr gyrraedd lefel uwch.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mae anawsterau gydag ynganu'n diflannu cyn i ddysgwyr gyrraedd lefel hyfedredd.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Nid yw anawsterau ynganu yn diflannu gyda phrofiad yn y dosbarth.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>


Tudalen 8

Rydym yn awyddus yn ein gwaith ymchwil hefyd i ganfod pa seiniau (neu elfennau ffonolegol eraill) sydd fwyaf tebygol o achosi anawsterau i ddysgwyr.

27. Yn eich barn chi, pa mor heriol yw'r nodweddion canlynol i ddysgwyr? (Nodwch un ateb ar gyfer pob nodwedd)

	Heriol iawn i ddysgwyr sy'n dechrau	Heriol iawn i ddysgwyr pob lefel	Heriol i rai dysgwyr	Ddim yn heriol
Caffael	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Caffael	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Caffael	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Rolio	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Ynganu ar ôl llafariad, e.e. a (yn wahanol i 'cah' ac ynganiad Saesneg 'partner')	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Ynganu , e.e. 'da' (yn wahanol i 'dah')	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Ynganu , e.e. ynganu 'nofio' fel 'nofiow'	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Ynganu , e.e. 'byw' (yn wahanol i 'be-oo')	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Ynganu , e.e. 'mawr' (yn wahanol i 'maw-uh')	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Ynganu , e.e. 'brown' (yn wahanol i ynganiad Saesneg y gair hwn)	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Ynganu , neu fel yn y goben acennog (y sillaf olaf ond un), e.e. 'ailiad' yn lle 'eiliad'; 'naiadd' yn lle 'neuadd'	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Pwysleisio'r sillaf anghywir, e.e. 'ym-A' yn lle 'Y-ma' neu 'CAN-ol-fan' yn lle 'can-OL-fan'	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

28. Efallai yr hoffech chi ychwanegu seiniau neu nodweddion eraill y teimlwch eu bod yn achosi anawsterau ynganu i ddysgwyr. Defnyddiwch y blwch isod ar gyfer nodi beth arall sy'n heriol i rai dysgwyr / bob dysgwr.



ADRAN C: RHESYMAU DROS ANAWSTERAU

Yn yr adran hon, gofynnir ichi ystyried pam rydych yn meddwl bod rhai agweddau ar ynganu yn heriol i ddysgwyr. Hoffem hefyd gael eich barn ynghylch y modd y dysgir ynganu i ddysgwyr Cymraeg i Oedolion.

Gofynnir ichi nodi ar raddfa o 1 i 5 i ba raddau rydych yn cytuno â'r gosodiadau isod. Rhowch sgôr o 1 os ydych yn "ANGHYTUNO'N GRYF", a sgôr o 5 os ydych yn "CYTUNO'N GRYF"

Anghytuno'n gryf = 1 Anghytuno = 2 Heb fod yn ochri = 3 Cytuno = 4 Cytuno'n gryf = 5

29. I ba raddau y cytunwch â'r gosodiadau canlynol?

	1	2	3	4	5
Mae dylanwad yr iaith gyntaf yn gryf ar acen Gymraeg dysgwyr.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mae dysgwyr yn siarad gormod o Saesneg yn y dosbarth, ac mae hyn yn eu rhwystro rhag datblygu acen.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mae dysgwyr yn teimlo'n anghyfforddus wrth ddynewared acen siaradwyr Cymraeg brodorol.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Nid oes gan ddysgwyr ddigon o gyfleodd i siarad Cymraeg yn y gymuned.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Nid wyf yn teimlo'n ddigon hyderus i ddysgu ynganu.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mae drilio'n effeithiol ar gyfer gwella ynganu rhai seiniau.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mae drilio'n effeithiol ar gyfer gwella rhythmau a goslef (intonation).	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mae drilio'n effeithiol ar gyfer gwella acen.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mae ynganiad y Gymraeg yn haws i ddysgwyr o Gymru nag ydyw i ddysgwyr o Loegr.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Dylai dysgwyr gael mwy o gyfleoedd i dreulio amser gyda siaradwyr yn y gymuned.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

Mae angen neilltuo rhagor o amser ar gyfer rhoi sylw penodol i ynganu yn y dosbarth.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Mae dysgwyr o Gymru yn ynganu y Gymraeg yn fwy Cymreigaidd na dysgwyr o Loegr.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Nid oes raid treulio gormod o amser ar ynganu gan mai deall y dysgwr sy'n bwysig yn y pen draw.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Nid oes raid treulio gormod o amser ar ynganu gan na fydd dylanwad yr iaith gyntaf byth yn diflannu fel rheol.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

ADRAN D: TU ALLAN I'R DOSBARTH

Yn olaf, gofynnir ichi feddwl am ddysgwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned (boent ddysgwyr o'ch dosbarthiadau neu ddysgwyr eraill rydych yn eu hadnabod). Nod y cwestiynau canlynol yw darganfod rhagor am eich canfyddiadau o safbwynt sut y mae dysgwyr yn ynganu'r Gymraeg, a pha broblemau a all godi yn y gymuned yn sgil hynny.

Rydym yn awyddus i gael eich barn ynghylch beth sy'n gwneud cyfathrebu rhwng dysgwyr a'r gymuned iaith gyntaf yn heriol neu'n aneffeithiol.

Gofynnir ichi nodi ar raddfa o 1 i 5 i ba raddau rydych yn cytuno â'r gosodiadau isod. Rhowch sgôr o 1 os ydych yn "ANGHYTUNO'N GRYF", a sgôr o 5 os ydych yn "CYTUNO'N GRYF"

Anghytuno'n gryf = 1 Anghytuno = 2 Heb fod yn ochri = 3 Cytuno = 4 Cytuno'n gryf = 5

30. I ba raddau y cytunwch â'r gosodiadau canlynol?

	1	2	3	4	5
Gall cyfathrebu rhwng dysgwr a siaradwr iaith gyntaf fod yn heriol pan fydd dysgwr yn siarad yn araf.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Gall cyfathrebu rhwng dysgwr a siaradwr iaith gyntaf fod yn heriol pan fydd pobl yn methu â deall y dysgwr.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Gall cyfathrebu rhwng dysgwr a siaradwr iaith gyntaf fod yn heriol pan fydd dylanwad Saesneg amlwg ar acen y dysgwr.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Gall cyfathrebu rhwng dysgwr a siaradwr iaith gyntaf fod yn heriol pan fydd dysgwr yn siarad yn wahanol i'r siaradwr iaith gyntaf.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Gall cyfathrebu rhwng dysgwr a siaradwr iaith gyntaf fod yn heriol pan fydd dysgwr yn ceisio siarad fel siaradwyr iaith gyntaf.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Gall cyfathrebu rhwng dysgwr a siaradwr iaith gyntaf fod yn heriol pan fydd dysgwr yn cael trafferth i ynganu rhai seiniau.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

Gall cyfathrebu rhwng dysgwr a siaradwr iaith gyntaf fod yn heriol pan fydd rhythmau a goslef (intonation) y dysgwr yn achosi trafferthion iddo / iddi.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Problem fawr yw bod siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf yn troi i siarad Saesneg â dysgwyr	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Problem fawr yw bod dysgwyr yn troi i siarad Saesneg wrth sgwrsio â siaradwyr iaith gyntaf.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Problem fawr yw bod dysgwyr yn nerfus i sgwrsio â siaradwyr iaith gyntaf.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Problem fawr yw bod siaradwyr iaith gyntaf yn rhy ddiamedd i siarad â dysgwyr.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Problem fawr yw bod acen dysgwyr yn ei gwneud hi'n anodd iddynt gael eu derbyn gan siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Problem fawr yw bod siaradwyr iaith gyntaf yn defnyddio gormod o ffurfiau tafodieithol.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Ar y cyfan, mae dysgwyr o Gymru yn well am integreiddio / ymdoddi i gymunedau Cymraeg nag yw dysgwyr o Loegr.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

Unrhyw sylwadau eraill?

Dyma'r dudalen olaf yr holiadur. Ar ôl i chi glicio 'parhau' y bydd eich atebion yn cael eu cyflwyno. Ewch yn ôl i wirio'ch atebion os oes eisiau arnoch chi.

31. Mae croeso ichi hefyd ysgrifennu unrhyw sylwadau ynghylch ynganu ymhlith dysgwyr y Gymraeg isod:

A large, empty rectangular box with a thin black border, intended for writing comments. It is positioned on the left side of a light beige background area.

Diolch yn fawr!

Diolch am lenwi'r holiadur hwn. Mae eich atebion wedi cael eu cyflwyno.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr arolwg hwn, neu os hoffech gael mwy o wybodaeth, cysylltwch ag Iwan Wyn Rees (ReesIW2@caerdydd.ac.uk) neu Jonathan Morris (MorrisJ17@caerdydd.ac.uk).
